Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru

South Wales
**Fire and Rescue Service**

# Diogelwch Tân Busnes
# Llyfr Log

Er mwyn cynnal arfer gorau dylid diweddaru'r llyfr log hwn gan y gall yr Awdurdod Tân ac Achub ei archwilio.

| | |
|---|---|
| Enw'r Adeilad/Busnes | |
| Llinell Gyntaf y Cyfeiriad | |
| Ail linell y Cyfeiriad | |
| Tref | |
| Cod Post | |
| Enw Cyswllt 1 | |
| Enw Cyswllt 2 | |



**YN EICH CEFNOGI CHI I AMDDIFFYN EICH BUSNES**

**SUPPORTING YOU TO PROTECT YOUR BUSINESS**

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cysylltiadau Defnyddiol | Tudalen 3 |
| Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 | Tudalen 4 |
| Gofynion Diogelwch Tân Cyffredinol | Tudalen 6 |
| System Larwm Tân | Tudalen 8 |
| Arwyddion Tân Diangen | Tudalen 10 |
| System Goleuo Brys | Tudalen 12 |
| Offer Ymladd Tân | Tudalen 14 |
| Systemau Taenellu | Tudalen 16 |
| Systemau Awyru Mwg | Tudalen 18 |
| Darpariaethau Amrywiol | Tudalen 19 |
| Cyfarwyddyd a Hyfforddiant Tân | Tudalen 21 |
| Gwacâd a Driliau Tân | Tudalen 23 |
| Asesiad Risg Tân | Tudalen 25 |
| Parhad Busnes a Chynllunio | Tudalen 26 |

# Eich Rhifau Ffôn Cyswllt Defnyddiol

| Cysylltwch â | Cwmni | Rhif |
|---|---|---|
| Peiriannydd Cynnal Larwm Tân | | |
| Peiriannydd Diffoddydd Tân | | |
| Peiriannydd Goleuo Brys | | |
| Peiriannydd Taenellwyr | | |

Am gyngor pellach am ddiogelwch tân cysylltwch â'r:

**LLINELL GYNGOR: 01443 232000**

**E-bost**
diogelwchtan@decymru-tan.gov.uk

**Gellir canfod gwybodaeth am Ddiogelu Tân neu unrhyw faterion perthnasol eraill ar wefan Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru**

www.decymru-tan.gov.uk

**a**
www.fire.gov.uk

**Mae gwybodaeth a chyngor ar gael o fewn canllawiau diogelwch tân a gyhoeddwyd gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol**

www.communities.gov.uk

# Y Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005

Erbyn hyn, mae'n rhaid i fwyafrif llethol lleoliadau a safleoedd ledled Lloegr a Chymru gydymffurfio â gofynion y Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005, a ddisodlodd y Ddeddf Rhagofalon Tân 1971 a'r Rheoliadau Rhagofalon Tân (Gweithle) 1997, yn ogystal â thros 100 o ddarnau o ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â Diogelwch Tân.

Nid yw'r Gorchymyn Diogelwch Tân yn berthnasol i gartrefi preifat pobl, er ei fod yn berthnasol i ardaloedd cyffredin, ffyrdd o ddianc a rennir, cyfleusterau a ddarperir i gynorthwyo'r Gwasanaeth Tân ac Achub, er enghraifft, mewnbibellau sych ar gyfer dŵr.

Paratowyd y Coflyfr Diogelwch Tân hwn i gynorthwyo perchnogion adeiladau, rheolwyr a phersonau cyfrifol eraill i gysylltu â'i gilydd a chynnal system gofnodi diogelwch tân.

Mae'r coflyfr hefyd yn ceisio cwmpasu'r prif ofynion gogyfer arddangos cydymffurfedd â deddfwriaeth diogelwch tân cyfredol. Dylid eu cadw mewn fformat dalen rydd ag iddo dudalennau cofnodi newydd wedi'u llungopïo neu eu lawr lwytho yn ôl y gofyn. Dylid cadw'r coflyfr yn gyfredol ac yn gywir a'i wneud yn hygyrch i'w harchwilio gan yr awdurdod gorfodi yn ôl y gofyn.

O ran cynnal cofnodion, mae'n bwysig nodi'r gofynion cyfreithiol dilynol;

### Troseddau (Erthygl 32)

'Mae'n drosedd cofnodi o fewn unrhyw restr, llyfr, hysbysiad neu ddogfen arall sy'n ofynnol i'w gadw, ei weithredu neu'i roi gan y Ddeddf hon, cofnod y gwyddai ei fod yn anwir mewn modd arbennig.'

### Cynnal a Chadw (Erthygl17)

'Lle bo'n angenrheidiol sicrhau diogelwch y personau perthnasol, mae'n rhaid i'r person cyfrifol sicrhau fod y safle ac unrhyw gyfleusterau, offer a dyfeisiau a ddarperir…., yn destun system gynnal briodol ac y'i cynhelir mewn stad effeithiol, eu bod yn gweithio'n effeithiol ac mewn cyflwr da'

### Y Person Cyfrifol (Erthygl 3)

Diffinnir y Person Cyfrifol fel unrhyw un, neu bob un, o'r canlynol:

- Y cyflogwr, os bydd y gweithle o dan ei reolaeth mewn unrhyw fodd
- Y person sydd â rheolaeth dros y safle
- Y perchennog

### Dyletswydd i weithredu rhagofalon tân cyffredinol (Erthygl 8)

*Bydd rhaid i'r person cyfrifol:*

*weithredu rhagofalon tân cyffredinol i sicrhau, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, ddiogelwch ei holl weithwyr ac, mewn perthynas ag unigolion perthnasol nad ydynt yn cael eu cyflogi ganddo/ganddi, rhaid gweithredu rhagofalon tân cyffredinol rhesymol yn unol â'r amgylchiadau penodol, i sicrhau bod y safle'n ddiogel.*

### Personau Cymwys

Diffinnir person cymwys fel:

Person a ystyrir yn gymwys i bwrpas y Gorchymyn Diogelwch Tân, lle bydd ganddynt hyfforddiant a phrofiad neu wybodaeth ddigonol ac unrhyw nodweddion eraill fyddai'n eu galluogi'n gywir i gynorthwyo i ymgymryd â mesurau ataliol a gwarchodol.

### Personau Perthnasol

Diffinnir person perthnasol fel:

- Unrhyw berson sydd neu a all fod ar y safle yn gyfreithlon
- Unrhyw berson yng nghyffiniau uniongyrchol y safle sydd mewn peryg sy'n deillio o dân ar y safle

# Rhestr o Bobl Gyfrifol / Gymwys i Reoli Rhagofalon Tân

| Dyddiad | Enw | Adran | Cyfriboldeb |
|---|---|---|---|
| | | | |

### Gofynion Diogelwch Tân Cyfreithiol

Mae'n ofynnol i chi:

- Gynnal asesiad risg tân i adnabod unrhyw beryglon a risgiau posib. Ystyriwch pwy sydd mewn perygl mawr
- Ddileu neu leihau'r risg o dân cymaint ag sy'n rhesymol bosib a darparu rhagofalon tân cyffredinol i ddelio ag unrhyw risg posib sy'n weddill
- Gyflawni mesurau eraill i sicrhau diogelwch wrth gadw neu ddefnyddio unrhyw ddeunyddiau fflamadwy neu ffrwydrol
- Greu cynllun i ddelio ag unrhyw argyfwng ac, ym mwyafrif yr achosion, gadw cofnod o'ch canfyddiadau
- Adolygu eich canfyddiadau lle bo'n ofynnol

# Gofynion Diogelwch Tân Cyffredinol

## Modd o ddianc

- ▪Darperir drysau tân i atal tân a mwg rhag ymledu. Cadwch hwy ynghau a pheidiwch â'u dal ar agor neu dynnu dyfeisiau hunan gau
- Cadwch goridorau a grisiau'n glir rhag deunyddiau storio a gwastraff
- Sicrhewch y gellir agor drysau'r allanfeydd terfynol yn rhwydd o'r tu mewn heb ddefnydd allwedd
- Cadwch ardaloedd y tu allan i ddrysau'r allanfeydd terfynol yn glir rhag rhwystrau ar bob adeg
- Ar bob adeg, sicrhewch y dynodir allanfeydd yn glir, gydag arwyddion yr allanfeydd yn weladwy o'r man pellaf mewn ystafell

## System Canfod a Larwm Tân

Ar bob adeg, sicrhewch fod y system larwm tân yn gweithredu'n gywir a bod y staff yn ymwybodol sut i'w defnyddio, yn adnabod tôn actifadu'r larwm a pha weithred i'w gyflawni pan glywir y larwm.

## Offer Ymladd Tân

- ▪Sicrhewch fod yr holl staff yn gwybod lle y lleolir y diffoddyddion a sut i'w gweithredu'n ddiogel
- Ar bob adeg, sicrhewch y cânt eu harchwilio a'u cynnal yn rheolaidd

## Goleuo Brys a Chyffredinol

- Sicrhewch y caiff yr holl systemau goleuo eu harchwilio a'u cynnal yn rheolaidd
- Newidiwch unrhyw fylbiau/gydrannau diffygiol yn syth

## Cyfarwyddiadau i Staff a Gwesteion

Bydd angen i staff fod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau mewn argyfwng.  Dylent wybod sut i:

- ▪Godi Rhybudd
- Alw'r Frigâd Dân
- Wybod pryd i beidio â thaclo tân
- Wybod y gweithdrefnau gwacâd cywir ar gyfer y safle

## Gwesteion ac Ymwelwyr

- Sicrhewch y bydd pob gwestai/ymwelydd i'r safle yn ymwybodol o'r camau sydd angen mewn argyfwng
- Dylai safleoedd sy'n derbyn ymwelwyr tramor argraffu eu hysbysiadau cyfarwyddyd tân yn yr iaith briodol

## Systemau Atal Dŵr Awtomatig BS EN 1285:2015

Dylai'r gosodwr fod wedi darparu gweithdrefnau archwilio a gwirio wedi'u dogfennu ar gyfer y system. Bydd y rhaglen hon yn cynnwys cyfarwyddiadau ar y camau i'w cymryd mewn perthynas â diffygion a gweithrediad y system. Dylid cyfeirio'n arbennig at y gweithdrefnau ar gyfer cychwyn pympiau a llaw ar frys a manylion y drefn wythnosol.

Bydd y prawf wythnosol yn cynnwys

- Prawf mesur gwasgedd dŵr
- Prawf mesur gwasgedd aer
- Ni ddylai gwasgedd o fewn pibellwaith mewn gosodiadau sych eiledol a chyn-weithredu ddisgyn ar gyfradd o fwy na 1.0 bar yr wythnos 888
- Gwiriwch holl lefelau dŵr mewn cronfeydd preifat, afonydd, llynoedd  thanciau storio dŵr uchel
- Safle cywir yr holl brif falfiau atal
- Pob prawf arall y tybir ei fod yn angenrheidiol gan eich gosodwr/gwneuthurwr

## Offer a Gosodiadau Trydanol

Mae tanau'n ymwneud ag offer trydanol yn cynyddu o ganlyniad i ddefnydd neu weithredu amhriodol neu drwy fethu cynnal a chadw'r offer. I leihau risg o ganlyniad i dân, dylid cynnal pob offeryn trydanol yn unol â darpariaethau'r Rheoliadau Trydan yn y Gweithle. 1989.

- Dylid gwirio ac adnewyddu gwifrau yn rheolaidd yn ôl yr angen
- Sicrhewch fod ffiwsys cywir wedi cael eu gosod ym mhob peiriant trydanol a bocs ffiwsys
- Tynnwch blygiau pob peiriant o'r brif ffrwd trydan pan nad ydynt yn cael eu defnyddio

## Gwresogi

- Cadwch ystafelloedd bwyleri'n glir – peidiwch â'u defnyddio fel stordy ychwanegol
- Cadwch offer gwresogi cludadwy i ffwrdd o gelfi ac unrhyw ddeunyddiau llosgadwy

## Deunyddiau Ysmygu

- Gwagiwch bob blwch llwch
- Peidiwch byth â chaniatáu ysmygu mewn storfeydd
- Byddwch yn wyliadwrus mewn ardaloedd lle bydd pobl yn ysmygu a darparwch flychau llwch digonol
- Cyn ymadael ag ystafelloedd na fyddant yn cael eu defnyddio am gyfnodau hir, neu lle bydd pobl yn cysgu, archwiliwch eto rhag ofn bod bonion sigaréts sy'n dal i fod ynghynn – gall y rhain fod wedi disgyn i gilfachau cadeiriau breichiau, ar garped neu ar ddillad gwely wrth i rywun syrthio i gysgu

## Llosgi Bwriadol

Rhagflaenir nifer o ymosodiadau llosgi bwriadol gan ddwyn a fandaliaeth ddinod, gan symud ymlaen i danau bach sy'n mynd yn fwy ac yn fwy uchelgeisiol dros gyfnod o amser. Gall rheoli deunyddiau gwastraff yn briodol gael gwared ar gyfle i losgwr bwriadol gael targed hawdd. Gall tanau bwriadol a osodir mewn deunyddiau llosgadwy wrth adeiladau ledaenu'n gyflym i'r eiddo ei hun, gan arwain at golli'r adeilad cyfan a hyd yn oed y busnes ei hun. Helpwch ddiogeli'ch safle rhag llosgi bwriadol drwy;

- Gadw unrhyw hylifau neu nwyon fflamadwy dan glo.
- Ddiogelu eich safle yn effeithiol ar ddiwedd y dydd.
- Gadw ysbwriel a malurion yn ddiogel ac ymhell o derfynau'r yr adeilad

# System Canfod a Larwm Tân

Mae'n rhaid profi'r system Canfod a Larwm Tân, yn cynnwys synwyryddion, pwyntiau galw, gwifrau, seinyddion a'r prif banel(au) yn unol â Safon Brydeinig BS 5839.

Os ydy'r system larwm yn gysylltiedig â'r ganolfan dderbyn galwadau, dylid cysylltu â hwy yn syth cyn ac ar ôl cynnal y prawf.

Dylid arddangos enw a rhif ffôn cwmni gwasanaethu'r larwm tân sy'n gyfrifol am gynnal a chadw ar y prif banel rheoli.

Gallai methu â darparu a chynnal system larwm tân priodol arwain at orfodaeth ffurfiol, a gall annilysu neu leihau unrhyw hawl a wnaed drwy gwmni yswiriant.

### Synwyryddion

Ni ddylai'r cyfnod rhwng ymweliadau archwilio a gwasanaethu olynol fod yn hwy na chwe mis. Dylid cynnal archwiliadau gweledol synwyryddion i'w harchwilio am ddifrod, croniadau baw, haenau trwm o baent a chyflyrau eraill sy'n debyg o ymyrryd â gweithredu cywir y synhwyrydd.

### Archwiliad Dyddiol

Archwiliwch y panel ar gyfer defnydd arferol o'r system. Lle darperir hyn, gwiriwch fod cysylltiad y ganolfan â gofal o bell yn gweithredu'n gywir. Adroddwch unrhyw wall i berson cyfrifol.

### Archwiliadau Wythnosol

Defnyddiwch ddyfais sbarduno (Man Galw â Llaw neu Synhwyrydd) i ganu'r larwm, gan ddewis dewisiadau amgen yn cylchdroi'n rheolaidd ar gyfer profion wythnosol dilynol. Nodwch ba ddyfais a ddefnyddiwyd a'i gofnodi yn y coflyfr. Os ydynt o fewn cyrraedd, archwiliwch y batris, y generadur a'r argraffydd a chyflawnwch unrhyw waith cynnal a chadw sydd angen.

### Archwiliad Misol

Os defnyddio generadur, dylid ei gychwyn drwy efelychu methiant o'r cyflenwad arferol a'i adael i redeg am o leiaf awr, gan sicrhau bod lefelau tanwydd, olew a'r oerydd yn cael eu hail-lenwi i'r lefelau priodol ar ôl y prawf

### Archwiliad a Phrawf Blynyddol

Dylid gwirio'r adran larymau ffug/arwyddion tân diangen gael ei wirio gan y gosodwr/gwasanaethwr a dylid adfer unrhyw wallau yn y system.

Dylai person cymwys archwilio a phrofi'r system gan berson cymwys (gweithwyr y gwneuthurwr neu'r gosodwr fel arfer) yn unol â'r Safon Brydeinig gyfredol.

# Cofnod Prawf Larwm Tân

| Dyddiad | Ardal Brofi | Larwm Tân Man Galw / Synhwyrydd | Rhyddhäwr Drws Awtomatig Boddhaol | | Canlyniadau a Chamau Unioni | Llofnod |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Ydy | Nac Ydy | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |

# Arwyddion Tân Diangen

Mae newidiadau i Safon Brydeinig 5839 erbyn hyn yn gofyn bod defnyddwyr systemau larymau tân awtomatig yn arddangos eu bod yn rheoli larymau ffug yn effeithiol.

Bydd methu dangos rheolaeth foddhaol o larymau ffug yn medru arwain at;

- Annilysu polisïau yswiriant
- Godi tâl am y Gwasanaeth Tân ac Achub yn mynychu galwad
- Leihau mynychu neu ddiffyg mynychu gan y Gwasanaeth Tân ac Achub
- Camau ffurfiol a weithredir o dan erthyglau 13 a/neu 17 o'r Gorchymyn Diogelwch Tân

I ddangos rheolaeth foddhaol o larymau ffug, mae'n ofynnol i ddefnyddwyr gofnodi a chategoreiddio'r math o alwad ffug. Mae galwadau ffug yn cael eu cynnwys o fewn un o'r pum categori canlynol;

### Larymau diangen

Larymau a achosir gan fygdarth coginio, stêm, mwg tybaco, llwch pryfed ac ati.

### Galwadau ffug yn ymwneud â chyfarpar

Larymau a achosir gan ddiffygion ar gyfarpar.

### Galwadau Ffug Maleisus

Larymau sy'n codi o ganlyniad i ddefnyddio offer heb awdurdod neu yn faleisus.

### Galwadau Ffug gyda bwriadau da

Mae'r rhain yn digwydd pan fydd unigolyn yn tybio bod achos o dân ac yn seinio'r rhybudd.

Dylid cofnodi unrhyw larymau ffug nad sy'n disgyn i un o'r categorïau uchod fel Anhysbys.

Bydd cofnodi'r wybodaeth hon yn caniatáu i'ch gosodwr system/darparwr gwasanaeth archwilio i unrhyw wallau/broblemau posib gyda system eich offer.

Mae rhagor o gyngor ar arwyddion tân diangen a sut i'w hatal ar gael ar ein gwefan:

www.decymru-tan.gov.uk

# Cofnod Galwadau Larwm Tân Ffug

| Dyddiad | Lleoliad | Categori 1-5 | Disgrifiad Byr o’r Achos, Stêm, Gwydr wedi Torri ac ati | Camau a Gymerwyd i Adfer/ Atal Rhag Ddigwydd Eto | Llofnod |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |

# System Oleuo Frys

Rhaid profi'r System Oleuo Frys, sy'n cynnwys; goleuadau, gwifrau, batris a/generaduron. Rhaid cynnal y profion canlynol i ateb gofynion Safon Brydeinig BS EN 50172:2004;

### Archwiliad Dyddiol

Gwiriwch fod unrhyw namau blaenorol wedi cael eu gwirio, bod pob lamp o fewn uned gynaledig ynghynn a bod pob panel rheoli yn dangos normal. Sicrhewch y cofnodir ac yna y gweithredir unrhyw wall.

### Archwiliad Misol

Gellir cyflawni hwn drwy efelychu methiant o'r cyflenwad oleuo arferol. Caniatewch amser digonol i wirio'r holl unedau oleuo ac arwyddion a chofnodi canlyniadau'r profion hyn yn y coflyfr.

Os defnyddio generadur, dylid ei gychwyn drwy efelychu methiant o'r cyflenwad cyffredin a'i adael i redeg am o leiaf awr, gan sicrhau ail-lenwi lefelau tanwydd, olew a'r oerydd ar ôl y prawf. Cofnodir y canlyniadau yn y coflyfr.

### Prawf Chwe Mis/Blynyddol

Dylid archwilio a phrofi'r system gan berson cymwys (fel arfer un o weithwyr y gwneuthurwr neu'r gosodwr) yn unol â'r Safon Brydeinig gyfredol. Dylid cofnodi'r canlyniadau yn y coflyfr.

### Cyffredinol

Nid yw arwyddion goleuedig cyfredol â'r geiriau **ALLANFA DÂN** neu **ALLANFA** erbyn hyn bodloni Rheoliadau GE. Fodd bynnag, tra bydd yr offer yn gweithredu'n gywir, cewch ychwanegu'r arwyddion angenrheidiol ato gan gynnwys symbol graffeg yn gyfagos iddynt, a bydd hyn yn sicrhau cydymffurfiad.

Am wybodaeth bellach, gweler Safon Brydeinig Rheoliadau BS 5266 Rhan 1 a Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Arwyddion a Signalau) 1996 neu cysylltwch â'ch swyddog diogelwch tân lleol.

# System Oleuo Frys - Cofnod Profion


| Dyddian | Hyd y prawf | Canlyniad y prawf | Nam (manylwch) | Gwaredwyd y nam | Llofnod |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |

# Offer Ymladd Tân

Dylid sicrhau bod diffoddyddion tân cludadwy a blancedi tân yn eich eiddo gael eu gweithgynhyrchu, eu lleoli a'u cynnal yn unol â'r Safonau Prydeinig derbyniol neu'r Safonau Ewropeaidd cyfatebol, megis BS 5306-3:2003 a BS EN3.


**Prif fathau o ddiffoddyddion cludadwy, yn nodi deunydd a chodau lliw**

**DŴR**
Ar gyfer tanau yn ymwneud â phren, papur, tecstilau, a deunyddiau thanau




**PEIDIWCH Â'I DDEFNYDDIO ar danau'n ymwneud â hylifau, trydan neu fetel**

**POWDR**
Ar gyfer tanau'n ymwneud â hylifau, tanau trydan




**PEIDIWCH Â'I DDEFNYDDIO ar danau metel**

**EWYN**
Ar gyfer tanau trydan



**PEIDIWCH Â'I DDEFNYDDIO ar danau metel**

**CARBON DEUOCSID ($CO^2$)**
Ar gyfer tanau'n ymwneud â hylif a thrydan



**PEIDIWCH Â'I DDEFNYDDIO ar danau metel**

Nodir cynnwys diffoddydd mewn parth lliw ar y corff coch.
Ni chynhwysir diffoddyddion halon gan na chaniateir cynhyrchion halon newydd yn y DU.

## Archwiliad Misol

Gwiriad gweledol syml yw hwn i sicrhau bod yr holl ddiffoddyddion lle dylent fod heb eu gollwng, heb golli gwasgedd (i'r rhai sydd wedi'u ffitio â dangosyddion gwasgedd) na dioddef unrhyw ddifrod amlwg. Nodwch nifer, math a lleoliad y diffoddyddion ar eich safle a chofnodwch y manylion yn y coflyfr. Mae nodi rhif ar gyfer pob diffoddydd yn arfer dda, gan y bydd hyn yn eich cynorthwyo i'w rheoli a'u cynnal yn barhaus.

Fel rheol, dylid gosod diffoddyddion tân ar lwybrau dianc, o ddewis wrth ymyl allanfeydd neu mewn achosion lle maent yn cael eu darparu ar gyfer risgiau penodol, dylid eu gosod wrth ymyl y peryglon y maent yn diogelu rhagddynt. Erbyn hyn, mae'n ofyniad yr adnabyddir lleoliad pob darn o offer ymladd tân gan hysbysiadau sy'n cynnwys symbol graffeg. Gweler Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Arwyddion a Signalau Diogelwch) 1996.

## Archwiliad Blynyddol

Dylai'r archwiliad blynyddol gael ei gynnal gan beiriannydd gwasanaeth cytundebol neu aelod o staff a hyfforddwyd yn briodol, yn defnyddio'r offer priodol a gweithdrefnau a argymhellir gan y gwneuthurwr.

### Cyfnodau gollwng

Mae'r amseroedd a argymhellir, ym mhob achos ers y dyddiad gwneuthuriad neu ddyddiad rhyddhau gwirioneddol diwethaf (prawf neu fel arall) o'r corff diffoddydd arbennig fel a ganlyn:

- Dŵr, Powdwr, Ewyn ac Ewyn yn seiliedig ar ddŵr. Gwasanaeth estynedig bob pum mlynedd ac ail-lenwi os bydd angen
- Powdwr- Sêl Sylfaenol. Gwasanaeth estynedig bob deg mlynedd ac ail-lenwi pe bai angen
- $CO_2$. Atgyweirio ac ail-lenwi bob deg mlynedd

### Blancedi Tân

Archwilio a gwirio yn ôl cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr.

# Offer Ymladd Tân - Cofnod o'r Profion

| Dyddiad | Canlyniad yr Archwiliad/Prawf | | Camau Unioni a Gymerwyd | Gwall a Unionwyd (Dyddiad) | Llofnod |
|---|---|---|---|---|---|
| | Boddhaol | Gwallus | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |

# Systemau Taenellu

### Cyffredinol

Gallai taenellwyr awtomatig fod yn amodol i bolisi yswiriant y safle ac felly, dylid eu cynnal a'u cadw yn unol â thelerau ac amodau'r polisi yswiriant i sicrhau amddiffyniad digonol a llawn.

Yn ogystal â hyn, gall system daenellu ffurfio rhan o ddatrysiad wedi'u beiriannu neu'n iawndal am ddargyfeirio o'r safonau diogelwch tân neu'r rheoliadau adeiladu a ystyrir i fod yn dderbyniol fel arfer. Felly, dylid cynnal a chadw'r system daenellu i sicrhau bod y dargyfeiriadau hynny'n gyson â'r Asesiad Risg Diogelwch Tân. Lle mae system daenellu'n ffurfio rhan o ddatrysiad wedi'i beiriannu, gallai hefyd fod yn destun Hysbysiad Addasiad, o dan erthygl 29 o'r Rheoleiddiad Diogelwch Tân, a gofynion cynnal a chadw yn erthygl 17 o'r Gorchymyn Diogelwch Tân.

Dylai gosodwr y System Taenellu Tân Awtomatig ddarparu archwiliad a rhaglen o wiriadau i'r system. Dylai'r rhaglen gynnwys; cyfarwyddyd ar y camau i'w cymryd mewn perthynas â diffygio, gweithredu'r system, yn enwedig y weithdrefn ar gyfer cychwyn unrhyw bympiau â llaw mewn argyfwng yn ogystal â manylion rheolweithiau dyddiol ac wythnosol.

### Yn wythnosol

Dylid cyflawni'r archwiliadau canlynol a'u cofnodi;

- Holl ddarlleniadau mesuryddion gwasgedd dŵr ac aer ar osodiadau, prif bibellau a thanciau gwasgedd
- Holl lefelau dŵr mewn cronfeydd preifat, afonydd, llynoedd a thanciau storio dŵr uchel

### Prawf Larwm Modur Dŵr

Seinir pob larwm modur dŵr am o leiaf 30 eiliad.

### Prawf Cychwyn Pwmp Awtomatig

Bydd profion ar bympiau awtomatig yn cynnwys;

- Gwirio lefelau tanwydd a lefelau iro'r injan
- Lleihau'r gwasgedd dŵr ar y ddyfais cychwyn i ffugio'r cyflwr cychwyn awtomatig
- Cofnodi'r gwasgedd cychwynnol a gwirio ei fod yn gywir

### Rheolweithiau Chwarterol / Chwech Misol / Blynyddol

Dylai'r amserlen gynnal a chadw a amlinellir o fewn y Safon Brydeinig gyfredol gael ei gynnal gan berson cymwys fydd yn rhoi adroddiad wedi'i harwyddo a'i ddyddio i'r defnyddiwr.

# Cofnod Profion System Taenellu

| Ystod Arferol Mesurydd Gwasgedd | Mesurydd Dŵr | | Gwasgedd Aer | | Gwasgedd Cychwyn Pwmp | Ailgychwyn Injan Disel | Batris | Falfiau Atal Falfiau Adrannol | Llofnod |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Boddhaol | | Boddhaol | | | | | | |
| Dyddiad | Ydy | Nac Ydy | Ydy | Nac Ydy | | | | | |
| | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | |

# Systemau Awyru Mwg

Gallai systemau awyru mwg gael eu darparu fel rhan o ddatrysiad wedi'u beiriannu ac, fel y cyfryw, gallant fod yn destun Hysbysiad Addasiadau, o dan erthygl 29 o'r Gorchymyn Diogelwch Tân, a gofynion cynnal a chadw Erthygl 17 o'r Gorchymyn Diogelwch Tân. Yn ogystal â hyn, os ddarperir system awyru mwg i gynorthwyo ymladd tân, bydd hefyd yn destun i Erthygl 38 o'r Rheoleiddiad Diogelwch Tân.

Dylid cynnal y prawf system awyru yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr, er mwyn cwrdd â gofynion y Safonau Prydeinig cyfredol, neu'r Safonau Ewropeaidd cyfatebol.

### Yn wythnosol

Yn ystod y prawf Larwm Tân, gwiriwch fod yr holl awyrydd mwg a llen fwg yn gywir a'u bod wedi'u hail-osod ar ddiwedd y prawf.

### Yn flynyddol

Dylai'r system gael ei brofi gan beiriannydd arbenigol yn unol â'r Safonau Prydeinig cyfredol neu'r Safonau Ewropeaidd cyfatebol.

# Cofnod o Brofion System Awyru Mwg

| Dyddiad y Profion | Llenni / Awyryddion | | Cywasgydd | | Gwasanaeth / Prawf Blynyddol | Llofnod |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Boddhaol | Anfoddhaol | Gwasgedd y Derbynnydd | Mesurydd Oriau o Ddefnydd | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |

# Darpariaethau Amrywiol

### Cyffredinol

Mae llawer o nodweddion yn ymwneud â Diogelwch Tân y gellir eu darparu mewn safle neu y gellir eu darparu i gynorthwyo'r Gwasanaeth Tân ac Achub wrth ddelio â digwyddiad yn ddiogel ac yn fwy effeithiol yn ogystal â lleihau effaith tân mewn adeilad. Gall y cyfleusterau hyn cael eu darparu am un neu fwy o'r rhesymau canlynol;

- Amodau Yswirio
- Rhan o ddatrysiad wedi'i beiriannu
- Gofyniad adeg adeiladu, neu brif adferiad
- Iawndal am ddargyfeirio o'r rheoliadau adeiladu arferol
- Yr hyn a gredwyd o anghenraid fel rhan o'r Asesiad Risg Diogelwch Tân

O ganlyniad i hyn, gallai cyfleusterau a ddarperir fod yn destun i un neu fwy nag un o erthyglau'r Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) ac, os ydynt yn cael eu darparu, dylid eu cynnal i'r safon ddiwydiannol berthnasol, sef, fel arfer y Safon Brydeinig neu'r safon Ewropeaidd gyfatebol.

Gall y cyfleusterau a ddarperir gynnwys un neu fwy o'r canlynol;

- ▪Mewnfeydd Ewyn
- Mewnbibellau Gwlyb/Sych
- Systemau Drensio
- Systemau Gorlif Nwy Anadweithiol
- Grisiau a choridorau gwasgeddedig
- Siafftiau Ymladd Tân, gyda lifftiau un pwrpas

Bwriad y rhestr wirio ganlynol yw darparu canllaw yn unig, a dylech geisio cyngor eich darparwr gwasanaeth unigol ynglŷn â'r cynllun cynnal a chadw angenrheidiol i sicrhau cydymffurfiad llwyr â'r gyfraith ac amodau yswiriant.

Gall y Gwasanaeth Tân neu o bosib adran rheoli adeiladu eich awdurdod lleol eich cynorthwyo os yw'r safle wedi cael ei adeiladu'n ddiweddar neu os bu'n destun gwaith atgyweirio yn destun i ganiatâd yr awdurdod lleol.

Am wybodaeth bellach ynglŷn â datrysiadau wedi'u peiriannu, cysylltwch â'n Hadran Beiriannu Diogelwch Tân i Fusnesau.

Ffôn: 01443 232000

diogelwchtan@decymru-tan.gov.uk
www.decymru-tan.gov.uk

# Cofnod o Brofion Darpariaethau Amrywiol

| Dyddiad y Prawf | Eitem / Nodwedd a Brofwyd | Amledd y Prawf e.e. wythnosol, misol | Llwyddo / Methu Sylwadau Cyffredinol | Llofnod |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |

# Cyfarwyddyd Tân a Hyfforddiant

Mae'n bwysig bod yr holl staff yn cael hyfforddiant tân sylfaenol yn yr hyn sydd angen ei wneud mewn achos o dân, gan gynnwys pobl sy'n gweithio oriau anarferol, rhan amser neu'n achlysurol.

**Erthygl 21.1 Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005**

Rhaid i'r person cyfrifol sicrhau y darperir hyfforddiant diogelwch addas i'w weithwyr.

Dylai'r hyfforddiant ganolbwyntio ar yr ardaloedd cyffredinol canlynol:-

**Camau i'w cymryd mewn achos o dân** - sut i seinio rhybudd.

**Gweithdrefnau Gwacáu** - adnabod y lleoliad a defnydd llwybrau dianc, mannau galw larwm tân, offer ymladd tân a mannau ymgynull enwebedig.

**Sut mae galw'r Frigâd Dân** - gweithdrefnau safleoedd.

Yn ychwanegol i'r uchod, gellir enwebu aelodau staff mewn adeiladau mawr i gyflawni tasgau penodol mewn achos o dân a dylid ymgorffori'r rhain hefyd i sicrhau cyflawni'r gweithdrefnau'n effeithiol ac yn ddiogel.

Dylai'r holl staff dderbyn gwybodaeth a hyfforddiant am ddarpariaeth diogelwch tân o fewn y safle cyn gynted â phosib ar ôl iddynt gael eu hapwyntio ac yn gyson wedi hynny, (o leiaf unwaith y flwyddyn). Dylai'r wybodaeth a roddir fod yn seiliedig ar eich cynllun gweithredu brys a dylai gynnwys:

- Canfyddiadau sylweddol eich asesiad risg tân
- Gweithdrefnau tân staff
- Manylion pobl â chyfrifoldeb dros ddiogelwch tân: - wardeniaid tân ac ati
- Y mesurau ar waith i leihau/liniaru effeithiau tân
- Unrhyw drefniadau arbennig ar waith
- Lleoliad allanfeydd brys ac offer ymladd tân (a'r defnydd a wneir ohono os yn briodol)

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â'n Hadran Diogelwch Tân i Fusnesau.

Ffôn: 01443 232000

diogelwchtan@decymru-tan.gov.uk
www.decymru-tan.gov.uk

# Cofnod Hyfforddiant / Cyfarwyddyd Staff

| Dyddiad | Hyd y Cyfarwyddyd | Unigolyn sy'n Derbyn y Cyfarwyddyd | Llofnod yr Unigolyn | Natur y Cyfarwyddyd | Llofnod yr Hyfforddwr |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |

# Dril / Gwacâd Tân

Wrth gyflawni driliau dylid efelychu amodau tân yn ogystal â phrofi gweithdrefnau tân. Dylai'r holl staff fod yn gyfarwydd â gweithdrefnau gwacáu'r safle a dylent i gyd gymryd rhan mewn driliau gwacáu tân o leiaf unwaith, ac o ddewis, ddwywaith y flwyddyn.

### Gweithdrefnau Perygl Difrifol ac Agos ac Ardaloedd Peryglus (Erthygl 15)

*Bydd rhaid i'r person cyfrifol sefydlu, a lle sy'n ofynnol, gweithredu gweithdrefnau priodol gan gynnwys driliau diogelwch, i'w dilyn mewn achos o berygl difrifol sydd ar ddod, i bersonau perthnasol.*

Ni ddylid defnyddio Driliau Tân ac ymarferion gwacáu i aflonyddu staff, neu anhwyluso pobl yn ormodol. Fodd bynnag, maent yn hanfodol ar gyfer profi gweithdrefnau lleol i wacáu'r safle ac amlygu problemau a fydd, o bosib, angen mynd i'r afael â hwynt.

Yn ddelfrydol, dylai'r mwyafrif o bobl wybod bod dril tân ar fin digwydd, i leihau unrhyw effeithiau andwyol a gadael amser i'r staff sicrhau eu bod yn gyfarwydd â llwybrau allanfeydd amgen. Mae'n bosib na fydd modd rhybuddio pawb, yn enwedig os bydd gan y safle fynedfeydd sy'n gymharol agored neu sy'n cael eu defnyddio gan y cyhoedd.

Dylid cyflawno ôl drafodaethau ar effeithiolrwydd y driliau fel bod modd newid unrhyw weithdrefnau gwacáu os bydd angen.

| Dyddiad ac Amser | Person sy'n Gyfrifol am y Dril | Nifer o Staff Cysylltiedig | Amser a Gymerwyd i Wacáu | Amser Optimaidd ar gyfer Gwacáu |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| **Efelychu**<br>(h.y. ffordd arferol wedi'i rhwystro/tân yn y cyntedd) | | | | |
| **Asesiad Dril** | | | | |
| **Argymhellion neu weithredoedd pellach gofynnol.** | | | | |

# Cofnod o Ddriliau Tân / Gwacatau

| Dyddiad | Natur y Dril | Unigolion/ Adrannau sy'n Cymryd Rhan | Amser Gwacáu | Unigolyn ag Awdurdod | Llofnod |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |

# Asesiad Risg Tân

Mae'n ofynnol i'r person cyfrifol sicrhau y cynhelir asesiad risg cymwys a digonol o risg tân.

*Mae'n rhaid i'r person cyfrifol gynnal asesiad cymwys a digonol o'r risgiau i bobl berthnasol at ddibenion adnabod y rhagofalon tân cyffredinol sydd angen iddo/iddi eu cymryd.*

Dylid cofnodi canfyddiadau arwyddocaol yr asesiad risg yn yr amgylchiadau canlynol:

- Os bydd 5, neu fwy o weithwyr
- Y trwyddedir y safle
- Bod Hysbysiad Addasiadau mewn grym

Gellir defnyddio'r tabl canlynol fel cofnod o'r pryd y  cynhaliwyd asesiad Risg Diogelwch Tân a phryd fydd yr asesiad risg nesaf yn ddyladwy.

# Cofnod o gynnal Asesiad Risg Diogelwch Tân

| Dyddiad Cyflawnwyd yr Asesiad Risg | Enw'r Person sy'n Cyflawni'r Asesiad Risg | Sylwadau Byr | Dyddiad y Prawf Nesaf |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

Ceir gwybodaeth bellach a chyngor yn Rhan 1 o'r gyfres o ganllawiau diogelwch tân a gyhoeddwyd gan yr Adran Gymunedau a Llywodraeth Leol y gellir eu lawr lwytho o www.cymunedau.gov.uk/neu gellir prynu copi.

# Parhad Busnes a Chynllunio

Gall tanau mewn safleoedd diwydiannol a masnachol gael effaith ddifrifol ar yr economi leol a chenedlaethol ill dau. Mae risg o golli swyddi sylweddol mewn swyddi gydag effaith gymdeithasol ac economaidd ar y gymuned yn ogystal â niwed amgylcheddol.

Wrth ystyried digwyddiadau mewn safleoedd ar gyfer parhad busnes, dylid cofio bod tua 60% o'r holl gwmniau sy'n dod i gysylltiad â thân difrifol yn methu ag ail gychwyn ar ôl y tân. Mae nifer o fusnesau sy'n cael tân difrifol ddim yn ail gychwyn. Fe all rhannau sylweddol o'r adeilad neu'r safle gael eu heffeithio ac mae'n bosib na fydd modd eu defnyddio am amser sylweddol.

Wrth gymryd amser byr i ystyried yr effaith y gall tân gael ar eich busnes, mae'n bosib y medrwch leihau'r effaith a sicrhau goroesiad hirdymor eich busnes, yn ogystal â goroesiad pobl ac eiddo yn y tymor byr.

Bwriedir y canlynol yn awgrymiadau yn hytrach na chofnod llawn o gytundebau a dogfennaeth.

# Rhestr o Ystyriaethau a Chamau ar gyfer Parhad Busnes yn dilyn Amhariad

| Ystyriaeth | Boddhaol | | Angen Gweithredu pellach |
|---|---|---|---|
| | Oes | Nac Oes | |
| Cynllun achub wedi'i baratoi a'i gadw mewn lleoliad diogel i ffwrdd o'r prif adeilad | | | |
| Cytundebau cytundebu ar waith ac yn gyfredol parthed tân/ adferiad llifogydd | | | |
| Cadw ffeiliau cyfrifiadurol yn ddyddiol i weinydd/lleoliad ar wahân i ffwrdd o'r prif adeilad | | | |
| Llety dros dro a glustnodwyd ac sydd ar gael | | | |
| Nodi darparwr(wyr) gwasanaeth amgen i gynnal dilyniant cwsmeriaid | | | |
| Gwirio'r polisi yswiriant i sicrhau ei fod yn cynnwys cwmpasiad rhag colled refeniw ac adleoli | | | |
| Sicrhau bod y rhestr o gysylltiadau brys wedi'i diweddaru ac ar gael | | | |
| Ystyriaethau Eraill | | | |
| Ystyriaethau Eraill | | | |
| Ystyriaethau Eraill | | | |
| Ystyriaethau Eraill | | | |